OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 311 (Cy. 70)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU
# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Mawrth 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 10 Ebrill 2020.

### Diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 28, yn y pennawd, ar y diwedd mewnosoder—

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gydag effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2010/2690, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**3**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), wedi ei ddiwygio'n rhagolygol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/368 (Cy. 90).

"ar gyfer deunyddiau planhigion o riant-blanhigyn a oedd yn bodoli cyn cychwyn".

(3) Ar ôl rheoliad 28 mewnosoder—

"**Darpariaeth drosiannol ar gyfer dogfennau'r cyflenwr sydd ynghlwm wrth ddeunyddiau CAC**

**28ZA.**—(1) Caiff cyflenwr farchnata deunyddiau CAC y mae dogfen y cyflenwr nad yw'n cydymffurfio â pharagraff 8A o Atodlen 2 ynghlwm wrthynt ar ffurf label os yw'r ddogfen honno—

(a) yn ddogfen y cyflenwr o liw a oedd yn cael ei ddefnyddio cyn 10 Ebrill 2020; a

(b) yn datgan eu bod yn cael eu marchnata yn unol ag Erthygl 3 o Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1813(**4**).

(2) Mae'r rheoliad hwn yn peidio â chael effaith ar 1 Gorffennaf 2021.".

(4) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 8(b), hepgorer paragraffau (ix) a (x); a

(b) ar ôl paragraff 8 mewnosoder—

"**8A.** Rhaid i ddogfen y cyflenwr sydd ynghlwm wrth ddeunyddiau CAC ar ffurf label fod wedi ei lliwio'n felyn."

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2020

(**4**) OJ Rhif L 278, 30.10.2019, t. 7.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau (OJ Rhif L 267, 8.10.2008, t. 8), a Chyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/96/EU ar y gofynion ar gyfer labelu, selio a phecynnu deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau, sydd o fewn cwmpas Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC (OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 12). Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1813 (OJ Rhif L 278, 30.10.2019, t. 7), sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2014/96/EU o ran lliw a chynnwys dogfen y cyflenwr.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddogfen y cyflenwr sydd ynghlwm wrth ddeunyddiau CAC ar ffurf label fod wedi ei lliwio'n felyn ac mae'n lleihau'r wybodaeth sy'n ofynnol yn nogfen y cyflenwr. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.